Dydd Gŵyl Dewi 2025

# Gwna’r Pethau Bychain.



#PethauBychain

# Dydd Gŵyl Dewi: 01 Mawrth. Ein diwrnod cenedlaethol i ddathlu ein nawddsant trwy 'wneud y pethau bychain' sy'n gwneud gwahaniaeth mawr.

Ymuna â ni, trwy wneud #PethauBychain hwyliog a charedig sy'n gwneud ein bywydau bob dydd yn well.

# *Gwna'r* Pethau Bychain...

Dathliad hwyliog o Gymru ar y cyfryngau cymdeithasol. Neges gan Dewi – o Gymru i'r byd.

Dyma wahoddiad i ymuno â ni i ddathlu ein diwrnod cenedlaethol drwy wneud dy beth bach Cymreig dy hun, a'i rannu ar gyfryngau cymdeithasol.

Beth yw'r Pethau Bychain?
Ffordd i ddangos i'r byd bod Cymru yn genedl gynnes, gyfeillgar sy'n gwneud pethau da – dros ein gilydd, dros ein cymunedau a'n byd.

Mae'r Pethau Bychain yn:

— Hawdd i'w gwneud, ac yn gwneud gwahaniaeth mawr.
— Dathlu ein pobl a'n traddodiadau.
— Ac, yn fwy na dim, mae'n gwneud diwrnod rhywun ychydig yn well.

Byddwn yn rhannu syniadau am ddegau o'r #PethauBychain yn y cyfnod cyn 01 Mawrth i dy ysbrydoli.



## Pethau Bychain i dy ysbrydoli...

Cymraeg




Gwisga het Gymreig
Mae'r het draddodiadol yn eiconig! Neu beth am wisgo fersiwn fodern – het Mistar Urdd neu'r het fwced!

Cymraeg




Iawn Blodyn?
Be well i roi i ffrind ar ein diwrnod cenedlaethol na cennin Pedr?

Cymraeg




Pryna beint i Dewi
Mae Dafydd neu Dai hefyd yn cyfri, a Non wrth gwrs (i ddathlu mam Dewi Sant). Iechyd da!

Cymraeg




O 'Steddfod i 'Steddfod
Rhanna luniau o'r cystadlaethau di-ri yn dy ysgol, neu beth am gynnal 'Steddfod ddwl llawn jôcs, cân actol a chystadleuaeth dalent?

Am fwy o syniadau, cer i croeso.cymru/cy/pethaubychain

Pethau Bychain i dy ysbrydoli...




Mwynha'r Mabinogi
Llên gwerin a chwedlau chwyrn, mae'r Cymry'n caru stori dda. Beth am bori drwy dudalennau hanes Cymru?




Gwisga dy gi
Neu Cymreigia dy gath. Pam dylwn ni gadw'r hwyl i ni ein hunain ar Ddydd Gŵyl Dewi? Rhanna luniau gyda dy ffrindiau!




Chwifia'r Ddraig
Baner Cymru yw'r orau yn y byd. Ffaith. Cofia ddathlu'r Ddraig Goch a chwifio'r faner hefo balchder yn dy ddosbarth.




Gwisga'n Gymreig
Dewisa wisg sy'n haeddu Sash Huw Fash. O grysau pêl-droed neu rygbi i grysau-t gyda sloganau Cymraeg – tro'r ysgol yn fôr o goch.

Am fwy o syniadau, cer i croeso.cymru/cy/pethaubychain

Pethau Bychain i dy ysbrydoli...

Cymraeg




Cymraeg




Cymraeg




Cymraeg




Rhanna bice bychain
Picau ar y maen, pice bach, cacennau cri, teisennau gradell – beth bynnag fyddi di'n eu galw, maen nhw'n dda. Gwna rai i'w rhannu.


Gwlad, Gwlad!
Cana nerth dy ben. Wedi'r cwbl, ni yw gwlad y gân! Pwyntiau bonws am ddysgu'r ail a thrydydd pennill.

Gwna dy gap
Rho dy het greadigol ymlaen a mynd ati i greu Het Gymreig draddodiadol ar gyfer dy hoff degan.

Clocsia
Dim ar gyfer llwyfan yr Eisteddfod yn unig mae clocsio... Rho dy 'sgidiau pren ymlaen a dangosa dy dalent. Os wyt ti'n meddwl dy fod yn glocsiwr o fri heria ffrind i dy wynebu.

Am fwy o syniadau, cer i croeso.cymru/cy/pethaubychain

# Enghreifftiau o Ddydd Gŵyl Dewi












# O'n bro i'r byd – helpa ni i droi'r byd yn Gymreig ar Ddydd Gŵyl Dewi, gyda 24 awr o Bethau Bychain.

Ble bynnag wyt ti yn y byd, ymuna â ni i ddathlu ein diwrnod cenedlaethol.

1. Dewisa!
Tynna lun neu fideo o'r #PethauBychain yn barod ar gyfer y diwrnod mawr. Rhanna dy gynlluniau gyda ni – lowri.jones37@gov.wales

2. Bloeddia!
Rhanna'r ddogfen yma gyda ffrindiau, cydweithwyr a sefydliadau gan annog mwy i gymryd rhan.

3. Rhanna!
Cadwa lygad ar ein hymgyrch ar @cymraeg a @walesdotcom ar draws y cyfryngau cymdeithasol — a chofia hoffi a rhannu.

Ar 01 Mawrth

4. Postia!
Rhanna'r #PethauBychain ar 01 Mawrth a thagio @cymraeg a @walesdotcom drwy'r dydd!

# Diolch.